Datganiadau Dylunio a Mynediad

Paratowyd y nodyn gwybodaeth hwn gan Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i roi arweiniad i ymgeiswyr/asiantau ynghylch gofynion, ac awgrymu cynnwys, Datganiadau Dylunio a Mynediad. Ni ddylid trin yr arweiniad fel canllawiau diffiniadol, y nod yw cynorthwyo ymgeiswyr, asiantau a datblygwyr i ystyried y materion dylunio a mynediad sy'n berthnasol i'w cynlluniau datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, efallai y bydd rhagor o faterion y dylid eu hystyried wrth ddylunio cynllun a'u trafod yn y Datganiad Dylunio a Mynediad nad yw'r nodyn gwybodaeth hwn yn eu cwmpasu.

Gofynion

Mae'n ofynnol cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad yn ôl y gyfraith ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio, p'un ai ydynt yn geisiadau cynllunio llawn neu amlinellol. Mae ceisiadau a gyflwynir heb ddatganiad o'r fath yn annilys ac ni ellir eu cofrestru nes cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad. Serch hynny, mae nifer gyfyngiedig iawn o eithriadau i hyn, sef:

- ceisiadau am weithredoedd peirianneg neu fwynau, megis chwarela;
- estyniadau i gartrefi sy'n bodoli eisoes neu adeiladu adeilad yng nghwrtil (gardd) annedd ar gyfer defnydd domestig preifat, megis garej, sied, tŷ gwydr ac ati;
- newid defnydd tir neu adeiladau. Ond os bydd angen darparu mynediad i gyflogeion, neu lle bo'r defnydd yn cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, mae'n ofynnol darparu datganiad sy'n ymdrin â materion mynediad yn unig.

Mae'n ofynnol cael Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer pob cais am ganiatâd adeilad rhestredig. Fodd bynnag, ni fydd angen i'r datganiad ystyried materion mynediad os bwriedir gwneud gwaith mewnol yn unig.

Nid yw'n ofynnol cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad gyda cheisiadau nad ydynt ar gyfer caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig (e.e. ceisiadau ar gyfer rheolaeth hysbysebu, gwaith ar goed â gorchymyn cadw coed arnynt neu storio sylweddau peryglus).

Gan nad yw ceisiadau i gymeradwyo materion a neilltuwyd yn geisiadau am ganiatâd cynllunio, nid yw'n orfodol cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad gyda nhw. Fodd bynnag, mae Datganiad Dylunio a Mynediad yn rhoi gwybodaeth am sut mae cynllun wedi datblygu trwy wahanol gamau dylunio ac felly dylai ceisiadau cymeradwyo materion a neilltuwyd gynnwys fersiwn wedi'i diweddaru o unrhyw Ddatganiad Dylunio a Mynediad a gyflwynwyd gyda'r cais amlinellol i adlewyrchu unrhyw newidiadau ers llunio'r un hwnnw.

Pwrpas

Adroddiad a gyflwynir gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig yw Datganiad Dylunio a Mynediad i ddangos sut mae pum amcan dylunio da wedi eu cynnwys mewn cynnig cynllunio penodol, ac esbonio pam os nad ydynt wedi'u cynnwys. Y pum amcan yw:

1. **Hygyrchedd**
2. **Cynaliadwyedd amgylcheddol**
3. **Cymeriad**
4. **Diogelwch cymunedol**
5. **Symud i, o ac yn y datblygiad.**

Ar gael mewn fformatau hygyrch, ar gais i'r perwyl hynny

Gellir lawrlwytho'r canllawiau 'Cynllunio Adeiladau Cynaliadwy' o wales.gov.uk

Dylai'r angen am Ddatganiad Dylunio a Mynediad wneud datblygwyr yn fwy ymwybodol o'r materion mae angen iddynt eu hystyried wrth ddylunio eu cynllun, cynorthwyo'r Cyngor ac ymgynghoreion allanol i ystyried ceisiadau yn ogystal â helpu'r gymuned leol i ddeall y cynigion datblygu arfaethedig. Ni ddylai'r Datganiad Dylunio a Mynediad fod yn ddogfen sy'n cael ei llunio i gyd-fynd â chais cynllunio yn unig. Dylai roi disgrifiad o'r broses ddylunio yn ei chyfanrwydd, o adeg prynu/prydlesu'r safle, i'r syniadau dechreuol ac ymlaen i'r dyluniad terfynol.

Hyd a Chynnwys

Bydd hyd Datganiad Dylunio a Mynediad yn amrywio yn dibynnu ar faint a math y datblygiad, a pha mor gymhleth yw'r gofynion dylunio a mynediad cysylltiedig. Fodd bynnag, dylai Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer cais cynllunio esbonio sut y cynhwyswyd yr amcanion dylunio yn y datblygiad o ran yr agweddau a ganlyn; hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol, cymeriad, diogelwch cymunedol a symud i, o ac yn y datblygiad.

Fel isafswm dylai ceisiadau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig esbonio sut y defnyddiwyd yr amcanion dylunio o ran yr agweddau a ganlyn; ymddangosiad, cynaliadwyedd amgylchedd, cynllun gosod, graddfa a hygyrchedd.

Argymhellir yn gryf bod cynlluniau, ffotograffau neu ddarluniau eraill yn cael eu cynnwys mewn Datganiad Dylunio a Mynediad, yn ychwanegol at adroddiad ysgrifenedig. Serch hynny, dylid cymryd gofal i osgoi dyblygu gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes gyda chais cynllunio. Yn hytrach, dylai'r Datganiad gyfeirio at ddogfennau eraill, a allai gynnwys cynlluniau safle a chynlluniau gweddluniau, asesiadau cludiant, asesiadau ecolegol neu asesiadau perfformiad ynni.

Mae'r pwyntiau isod yn rhoi peth arweiniad ynghylch fformat a chynnwys Datganiad Dylunio a Mynediad, ond ni fwriedir iddo fod yn rhestr gynhwysfawr ac mae'n debygol y bydd materion eraill sy'n unigryw i bob datblygiad y bydd angen eu hystyried a'u trafod.

Cyffredinol

- Egluro'r weledigaeth ar gyfer y safle (h.y. yr hyn mae'r datblygwyr yn gobeithio ei gyflawni).
- Darparu gwybodaeth am y safle, ei leoliad, ei ddefnydd ar hyn o bryd ac unrhyw nodweddion allweddol sy'n bodoli eisoes (e.e. adeiladau, mannau mynediad a ffiniau, coed a gwrychoedd).
- Nodi prif gymeriad adeiladau cyfagos a'r ardal amgylchynol.
- Nodi unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle (e.e. problemau mynediad, ystyriaethau ecolegol, topograffi).
- Cyfeirio at y polisïau cynllunio a'r canllawiau cynllunio atodol perthnasol.
- Dylid cynnwys manylion am unrhyw ymgynghori a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r cais cynllunio â pherchnogion/meddiannwyr tir neu adeiladau cyfagos, y Cyngor Cymuned lleol ac unrhyw gyrff statudol (megis yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Asiantaeth Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru) a'r ymateb a gafwyd.

Egluro'r prosesau a ddilynwyd wrth ddylunio'r datblygiad er mwyn ymateb i'r materion uchod.

TAFLEN WYBODAETH GYNLLUNIO



❍ Beth yw'r trefniadau ymdrin â gwastraff, cyn (lle bo adeiladau sy'n bodoli eisoes i'w dymchwel), yn ystod ac ar ôl cwblhau'r gwaith datblygu? Dylai hyn nodi sut y bwriedir lleihau faint o wastraff a gynhyrchir, a sut y bwriedir ailddefnyddio ac ailgylchu'r swm sy'n cael ei gynhyrchu.

❍ A ddyluniwyd y datblygiad i ystyried effaith newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol (e.e. newidiadau mewn tymheredd neu batrymau glawiad)?

❍ Yn achos adeiladau rhestredig, dangoswch yr opsiynau ar gyfer sicrhau bod y datblygiad yn gynaliadwy ac mai'r datrysiad dylunio terfynol yw'r mwyaf priodol, o ran hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol tra'n cadw neu'n cyfoethogi elfennau hanesyddol neu bensaernïol pwysig yr adeilad.

1. Hygyrchedd

❍ Sut mae'r mynediad i'r safle yn adlewyrchu polisïau cynllunio wedi eu mabwysiadu o ran y mynediad?

❍ Sut mae'r datblygiad yn sicrhau mynediad rhwydd i'r safle (h.y. o'r prif fannau mynediad) yn ogystal ag yn y safle ei hun (e.e. o lwybrau troed neu feysydd parcio) i'r holl ddarpar ddefnyddwyr?. Mae hyn yn cynnwys dangos pa ddarpariaeth mynediad a wnaed i'r rhai â gofynion penodol, megis unigolion ag anableddau corfforol, problemau â'r synhwyrau (e.e. golwg gwael), anawsterau dysgu neu rieni sy'n gwthio pram/coets.

❍ Sut fydd y datblygiad yn goresgyn neu'n datrys unrhyw broblemau â'r trefniadau mynediad presennol i'r safle?

❍ Yn achos adeiladau rhestredig, esboniwch yr ystod lawn o opsiynau a ystyriwyd ar gyfer gwella mynediad i'r adeilad/safle a dangos pam mai'r cynigion a ddewiswyd a ystyrir y rhai mwyaf priodol, o ran darparu/gwella mynediad tra'n cadw neu'n cyfoethogi elfennau hanesyddol neu bensaernïol pwysig yr adeilad.

2. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

❍ Sut y dyluniwyd y datblygiad i leihau'r galw am ynni ac allyriadau carbon trwy weithredu'r hierarchaeth ynni?

❍ Yn achos cynigion i adeiladu adeiladau newydd, gweler y taflenni ynghlwm am ragor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer yr adran hon o'r Datganiad Dylunio a Mynediad.

❍ Sut y dyluniwyd y cynllun i leihau'r galw am ddŵr a lleihau'r effaith mae dŵr gwastraff yn ei gael ar yr amgylchedd a'r system ddraeniau sy'n bodoli eisoes?

❍ A fydd y datblygiad yn defnyddio deunyddiau sy'n cael effaith isel ar yr amgylchedd, megis pren o fforestydd sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, deunyddiau o ffynonellau lleol (i leihau allyriadau cludiant) neu ddeunyddiau wedi eu hadfer neu eu hailgylchu?

❍ Sut fydd y datblygiad yn cynnal neu'n gwella cynefinoedd naturiol?

❍ A yw'r datblygiad wedi ei leoli mewn lleoliad sy'n hybu dewisiadau cludiant cynaliadwy?

❍ A yw'r datblygiad yn hyrwyddo defnyddio'r tir yn effeithlon, ac os felly, sut?

3. Cymeriad

❍ Sut fydd y datblygiad yn cynnwys tirlunio meddal a chaled i amddiffyn a gwella cymeriad y safle a'r ardal amgylchynol?

❍ A yw graddfa'r datblygiad (yn cynnwys uchder, lle a hyd yr adeiladau arfaethedig) yn ystyried y berthynas rhwng y safle ag eiddo/defnydd tir cyfagos?

❍ A yw'r datblygiad a'r defnydd arfaethedig yn hyrwyddo defnyddio'r tir yn effeithlon tra'n diogelu cymeriad yr ardal ac amwynderau trigolion cyfagos?

❍ Sut mae cynllun gosod y datblygiad yn sicrhau y bydd yn integreiddio i'w amgylchedd, yn ogystal â sicrhau bod adeiladau, gwagleoedd agored a llwybrau mewnol (e.e. ffyrdd a llwybrau troed) yn y datblygiad yn cyd-fynd â'i gilydd yn dda ac yn uchafu effeithlonrwydd ynni?

❍ Sut mae'r dyluniad allanol, yn cynnwys defnyddio deunyddiau, triniaeth y ffiniau a thirlunio, yn sicrhau bod golwg y datblygiad yn adlewyrchu, ategu a chyfoethogi cymeriad yr ardal?

❍ Yn achos adeiladau rhestredig, eglurwch ystod yr opsiynau a ystyriwyd a dangoswch mai'r cynigion terfynol yw'r mwyaf priodol, o ran cadw neu gyfoethogi elfennau hanesyddol neu bensaernïol pwysig yr adeilad.

4. Diogelwch Cymunedol

❍ Sut fydd cynllun gosod y safle yn sicrhau bod gwyliadwraeth naturiol ddigonol dros wagleoedd agored, meysydd parcio neu lwybrau troed ar y safle?

❍ A yw'r datblygiad yn gwella diogelwch cymunedol a diogelwch unigolion trwy leihau gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddiau tir?

5. Symud i, o ac yn y datblygiad

❍ Sut mae'r datblygiad yn hyrwyddo dewisiadau cludiant cynaliadwy e.e. a yw'r safle yn agos at gyfleusterau, megis cludiant cyhoeddus rheolaidd, siopau, ysgolion, canolfannau cymuned a gwagle agored?

❍ Sut mae'r datblygiad wedi ystyried gofynion parcio (yn cynnwys sut fydd meysydd parcio yn cael eu rheoli)?

❍ Sut mae'r datblygiad yn ymdrin â gwasanaethu anghenion y safle, yn enwedig o ran cerbydau mawr (e.e. lle i barcio a throi i gerbydau cyflenwi nwyddau)?

❍ Sut mae'r datblygiad yn darparu cysylltiadau clir a diogel i, o a'r tu mewn i'r datblygiad, ac integreiddio â chysylltiadau cludiant sy'n bodoli eisoes?

Rhagor o gyngor

Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau hyn: Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, Beth a Sut. Cewch lawrlwytho copi o:

dcfw.org/publications/view/design_and_access_statements_in_wales

Nodir y polisi cenedlaethol ar adeiladu cynaliadwy yn y Datganiad Polisi Cynllunio Interim gan y Gweinidog 01/2009 'Cynllunio Adeiladau Cynaliadwy'. Cewch lawrlwytho copi o: wales.gov.uk

Ceir arweiniad cenedlaethol ar ddylunio da a chynnwys Datganiad Dylunio a Mynediad yn Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2009). Cewch lawrlwytho copi o: wales.gov.uk

Mae CADW, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi cyngor ar fynediad cynhwysol i adeiladau hanesyddol: Goresgyn y Rhwystrau, Darparu Mynediad Ffisegol i Adeiladau Hanesyddol (2002). Cewch lawrlwytho copi o:

www.cadw.wales.gov.uk/upload/resourcepool/Overcoming_e6495.htm

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu nifer o Nodiadau Canllaw Cynllunio Lleol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar safonau priodol ar gyfer datblygiadau newydd, yn cynnwys dylunio a chynaliadwyedd. Cewch lawrlwytho'r rhain o www.wrexham.gov.uk/planning

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r:

Adran Gynllunio,
Neuadd y Dref, Stryt y Lampint, Wrecsam,
LL11 1AR.
Rhif ffôn: (01978) 292017
Rhif ffacs: (01978) 292502
e-bost: planning@wrecsam.gov.uk
www.wrexham.gov.uk

Mawrth 2011